**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 2il Mawrth 2022, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 79. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr P. Prendergast a Ms V. Roberts.

## 80. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – CHWEFROR 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1324 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 – taliad 3 o 3 2021/22 |
| 1331 | HSBC | 13.56 | Taliadau banc 16 Rhag 2021 – 16eg Ion 2022 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau – taliad 11 o 12 2021/2022 |
| 1332 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi rheoli Ion 2022 |
| 1333 | CThEM | 2,794.89 | Didyniadau PAYE Ion 2022 |
| 1334 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Ion 2022 |
| 1335 | Cyflogau staff | 7,362.97 | Cyflogau staff Chwfror 2022 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **48,859.31** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 26.75 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 3.58 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 3.07 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 3.07 |
| CThEM | AD-daliad TAW Chwarter 3 Hyd - Rhag 2021 | 1,146.52 |
| | | |
| | **Cyfanswm incwm** | **1,183.60** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 81. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr atodlen ddiwygiedig roedd wedi ei dosbarthu i'r aelodau ddoe drwy ebost.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1353 | Cyngor Tref Bae Colwyn | 2 x docyn noson cwis elusennol 5ed Mawrth 2022 | 20.00 |
| 1354 | Cyngor Sir Ddinbych | CLG Cynnal a Chadw Tiroedd 2021/22 | 37,486.28 |
| 1355 | Cyngor Sir Ddinbych | CLG Gerddi Coffa 2021/22 | 6,778.08 |
| 1356 | Y Cyngh D. L. King | Treuliau'r Maer Ion 2022 | 55.00 |
| 1357 | Fool's Paradise Ltd | Artistiaid ar gyfer Diwrnod y Maer, Mawrth 2022 | 3,618.00 |
| | | ***Cyfanswm*** | **£47,957.36** |

**Taliadau argyfwng a cherdyn:** Roedd un taliad argyfwng (Rhif taleb 1353) a dim taliadau gan ddefnyddio cerdyn Cyngor Tref y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 82. DATGANIAD BLYNYDDOL 2020/2021 – CWBLHAU ARCHWILIAD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad yr Archwiliwr Allanol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan adrodd bod dim materion a dim argymhellion i'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol, wedi ei archwilio, ar gyfer 2020/21.*

## 83. DATGANIADAU ARIANNOL 2020/2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Datganiadau Ariannol (Cyfrifon Terfynol) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau eu cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2020/21.*

## 84. ADRODDIAD INGERIM ARCHWILIO MEWNOL 2021

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ôl derbyn Archwiliad Interim yr Archwiliwr Mewnol, gan nodi dwy eitem i'w hystyried, fel a ganlyn:

Derbynneb ar gyfer rhoddion mwy – wedi gwneud taliad o £5,000 i Bwyllgor Lles Brigâd Dân y Rhyl ar ôl llythyr cytundeb a lofnodwyd, yr argymhelliad yw bod y Cyngor Tref yn cael derbynneb wedi ei llofnodi amdano.

Anfonebau coll – mae dwy anfoneb ar goll ar gyfer meddalwedd GoToMyPC sy'n galluogi i bedwar aelod staff weithio o'u cartrefi. Mae'r anfonebau yn cael eu ceisio.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a nodi'r ddau fater.*

*(ii) cyfeirio'r materion i'r Is-bwyllgor Asesu Risg i fonitro'r camau a gymerwyd i'w datrys.*

## 85. ETHOLIADAU 2022 – TREFNIADAU GWEINYDDOL

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â nifer o drefniadau yr oedd angen i'r Cyngor Tref eu hystyried mewn perthynas â'r etholiadau i ddod.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) cymeradwywyd dirprwyo pwerau yn ffurfiol ar gyfer y cyfnodau 20fed Ebrill – 9fed Mai a 9fed Mai – 18fed Mai i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r Maer a'r Cadeiryddion a Chlerc y Dref a'r Maer yn eu tro.*

*(ii) dirprwyo trefniadau ar gyfer y digwyddiad Sefydlu Maer i Glerc y Dref a'r Swyddog Cymorth Dinesig a Gweinyddol a'r Maer newydd, os yn briodol ac yn dibynnu ar ganlyniad yr etholiadau. Hefyd, i'r Dirprwy Faer gael ei gadarnhau yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.*

*(iii) aelodaeth y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol fydd holl aelodau'r Cyngor ac y bydd yr holl aelodau hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Cynllunio nes bydd aelodau unigol yn dweud nad ydynt eisiau bod arno. Holl aelodau pwyllgorau eraill i'w ohirio tan gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 1af Mehefin 2022.*

*(iv) Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i'w benodi yng Nghyfarfod Blynyddol y Cadeirydd gyda phob Cadeirydd arall yn cael ei ohirio tan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 1af Mehefin 2022.*

*(v) gohirio ystyriaeth penodiadau i gyrff allanol a llywodraethwyr ysgol tan gyfarfod y oodcd ar 1af Mehefin 2022.*

## 86. EITEM YCHWANEGOL: DYFARNIAD CYFLOG COSTAU BYW

Adroddodd y Cadeirydd ar setliad cyflog o 1.75%, gyda graddfeydd cyflog newydd i ddod gan Gyngor Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r dyfarniad cyflog i'w roi yng nghyflog aelodau staff ym mis Mawrth a'i ôl-ddyddio o Ebrill 2021.*

**87. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………